PWYLLGOR CYNLLUNIO

DYDD MERCHER, 19 MAI 2021

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd K Jones(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Stubbs, Ahmed, Asghar Ali, Gordon, Hudson, Jacobsen, Jones-Pritchard, Keith Parry, Sattar a/ac Wong |

35 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Dim

36 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Ebrill 2021 yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

37 : DATGAN BUDDIANNAU

| CYNGHORDD | EITEM | RHESWM |
|---|---|---|
| Jacobson | 21/00321/MNR | Cynghorydd Ward |

38 : DEISEBAU

1. 20/02634/MNR, Tir yn Rhydlafar Drive, Sain Ffagan, Caerdydd
2. 21/00497/MNR, Tŷ'r Gofalwr, Ysgol Gynradd Llandaf, 28 Hendre Close, Llandaf
3. 21/00420/MNR, Caffi Terra Nova, Heol Orllewinol y Llyn, Cyncoed
4. 21/00520/MNR, 49 Heol Wellfield, Plasnewydd

Mewn perthynas â 1, 2 a 3 siaradodd y deisebwyr ac ymatebodd yr ymgeiswyr/asiantau. Mewn perthynas â 4 siaradodd y deisebwr ac ni ymatebodd yr ymgeisydd/asiant.

39 : CEISIADAU RHEOLI DATBLYGU

# CEISIADAU A GANIATEIR

21/00497/MNR – LLANDAF

TŶ'R GOFALWR, YSGOL GYNRADD LLANDAF, 28 HENDRE CLOSE
Newid defnydd o breswyl (C3) i sefydliad amhreswyl (D1) i'w ddefnyddio fel meithrinfa cyn-ysgol gan drosi'r modurdy presennol i ardal chwarae.

Yn amodol ar amod ychwanegol i sicrhau mynediad parhaol i'r feithrinfa drwy dir yr ysgol o Glos Hendre a Ffordd Caerdydd.

21/00420/MJR – CYNCOED

CAFFI TERRA NOVA, HEOL ORLLEWINOL Y LLYN
Amrywio Amod 4 o 08/01271/E er mwyn i oriau agor gael eu hymestyn 1 awr o 21.00-22.00.

# CEISIADAU A GANIATEIR WRTH WEITHREDU RHWYMEDIGAETH GYNLLUNIO YN UNOL AG ADRAN 106 DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1991.

20/02634/MNR – CREIGAU/SAIN FFAGAN

TIR YN RHYDLAFAR DRIVE
Adeiladu canolfan feddygol deulawr newydd (dosbarth defnydd D1) a fferyllfa (dosbarth defnydd A1), lle parcio, tirlunio a gwaith cysylltiedig

Yn ddarostyngedig i ddiwygiad i Amod 2 sydd i ddarllen:

Bydd y datblygiad yn cael ei wneud yn unol â'r cynlluniau a'r dogfennau cymeradwy canlynol: 1766-90 – Cynllun Lleoliad. 1766-111 (REV N) – Cynllun Safle Arfaethedig. 1766-201 (REV M) – Cynlluniau Llawr Arfaethedig. 1766-202 - Cynllun To. 1766-300 (REV E) – Gweddluniau Arfaethedig. 1766-301 (REV B) – Golwg Arfaethedig. Strategaeth Rheoli Gwastraff a baratowyd gan Peacock + Smith. Datganiad Trafnidiaeth a baratowyd gan Asbri Transport dogfen cyf: T20.122.TA.D1 Nodyn Technegol Ecolegol a baratowyd gan Celtic Ecology dyddiedig 30/09/2020 Strategaeth Draenio Dŵr Wyneb a baratowyd gan ARP Associates cyfeirnod 2102/01r1c Rheswm: I sicrhau bod y datblygiad yn cael ei gwblhau yn foddhaol ac er mwyn osgoi amryfusedd yn unol ag amcanion Polisi Cynllunio Cymru i hyrwyddo system gynllunio effeithiol.

Yn unol ag addasiad i Amod 4:

4) Bydd manylion y gyffordd rhwng y ffordd fynediad arfaethedig a'r briffordd, gan gynnwys cyfleusterau croesfan i gerddwyr, yn cael eu cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig a bydd y manylion cymeradwy yn cael eu gweithredu cyn i'r datblygiad gael ei ddefnyddio'n fuddiol

Yn amodol ar Amod ychwanegol a fydd yn darllen:

Cyn dechrau'r datblygiad, bydd manylion y dull o amgáu safleoedd yn cael eu cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig. Bydd y dull o amgáu'r eiddo yn cael ei adeiladu yn unol â'r manylion cymeradwy cyn i ddefnydd buddiol gael ei wneud o'r datblygiad.

Yn amodol ar Amod ychwanegol a fydd yn darllen:

‘Ni fydd unrhyw ddatblygiad yn dechrau nes y bydd Datganiad Dull Adeiladu wedi'i gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo. Glynir wrth y datganiad cymeradwy drwy gydol y cyfnod adeiladu. Bydd y datganiad yn darparu ar gyfer:

i) parcio cerbydau gweithredwyr safleoedd ac ymwelwyr;
ii)
iii) llwytho a dadlwytho peiriannau a deunyddiau;
iv) storio peiriannau a deunyddiau a ddefnyddir wrth adeiladu'r datblygiad; iv) codi a chynnal a chadw teclynnau codi diogelwch, gan gynnwys arddangosfeydd addurniadol a chyfleusterau i'w gweld gan y cyhoedd, lle bo'n briodol;
v) Cyfleusterau golchi olwynion:
vi) mesurau i reoli gollyngiad llwch a bryntni wrth ddymchwel ac adeiladu; a
vii) chynllun ar gyfer ailgylchu/gwaredu gwastraff sy'n deillio o waith dymchwel ac adeiladu

Yn amodol ar Argymhelliad ychwanegol i ddarllen:

ARGYMHELLIAD 6: Er mwyn amddiffyn amwynderau preswylwyr mewn adeiladau eraill yn y cyffiniau tynnir sylw at ddarpariaethau Adran 60 Deddf Rheoli Llygredd 1974 o safbwynt rheoli lefel y sŵn wrth ddymchwel ac adeiladu. Ar ben hynny parthed y caniatâd hwn, cynghorir yr ymgeisydd na ddylid creu unrhyw sŵn yn gysylltiedig â’r gwaith adeiladu y gellir ei glywed y tu allan i ffin y datblygiad ger yr eiddo preswyl gerllaw, y tu allan i’r oriau canlynol sef 0800-1800 Dydd Llun i Ddydd Gwener a 0800-1300 ar Ddydd Sadwrn ac ar unrhyw adeg ar Ddydd Sul neu ar wyliau cyhoeddus. Cynghorir yr ymgeisydd hefyd i geisio caniatâd ar gyfer unrhyw weithrediadau arfaethedig â gordd beiriant

21/00321/MJR – PENTWYN

HEN SAFLE MORRISONS, 113 BRYNHEULOG
Gwaith arfaethedig i ddatblygu 28 o dai fforddiadwy gan gynnwys lleoedd parcio ceir, draenio cynaliadwy, tirlunio a gwaith cysylltiedig

20/02078/MJR – PONTPRENNAU / PENTREF LLANEIRWG

Tir gerllaw St Julians House, Bridge Road
Datblygiad preswyl o hyd at 160 o unedau gyda dymchwel, seilwaith, tirlunio a mynediad cysylltiedig.

# CEISIADAU WEDI’U GWRTHOD

21/00520/MNR – PLANNEWYDD

49 HEOL WELLFIELD
Newid defnydd o fanwerthu (Dosbarth A1) i fwyty (Dosbarth A3) a gosod lwfer, planhigion a dwythell.

40 : ADRAN 257 DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990, LLWYBR TROED CYHOEDDUS RADUR RHIF 37

Ystyriodd y Pwyllgor Cynllunio adroddiad a oedd yn rhan o Gais Cynllunio 14/02733/MJR ar gyfer Datblygiad Preswyl Plasdwr, cynigiwyd adlinio'r Radur Llwybr

Cyhoeddus 37 o fewn coridor gwyrdd. Byddai'r llwybr troed gogleddol sy'n groesfan newydd i gerddwyr ar Heol Llantrisant yn darparu gwell mynediad i gysylltiad â Llwybr Cyhoeddus Radyr rhif 38 sy'n mynd tuag at Glwb Golff Radur.

PENDERFYNWYD: CYTUNODD y Pwyllgor Cynllunio i gymeradwyo'r cais er mwyn cyfarwyddo'r Gwasanaethau Cyfreithiol i brosesu’r Gorchymyn Cyfreithiol.

41 : ADRAN 257 DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990, LLWYBR TROED CYHOEDDUS RADUR RHIF 38

Ystyriodd y Pwyllgor Cynllunio adroddiad a oedd yn esbonio bod y datblygwr Redrow wedi derbyn caniatâd cynllunio amlinellol ar gyfer Rhif Cais 14/02733/MJR ar gyfer Datblygiad Preswyl Plas Dwr. Cynigiwyd adlinio'r Llwybr Cyhoeddus Radyr Rhif 38 drwy fannau gwyrdd yn y datblygiad newydd. Roedd Clwb Golff Radur a Datblygwyr Redrow yn gwneud cais ar y cyd i adlinio'r llwybr troed sy'n croesi'r ddau barsel tir i ddarparu llwybr mwy diogel i gerddwyr.

PENDERFYNWYD: CYTUNODD y Pwyllgor Cynllunio i gymeradwyo'r cais er mwyn cyfarwyddo'r Gwasanaethau Cyfreithiol i brosesu’r Gorchymyn Cyfreithiol.

42 : CEISIADAU WEDI EU PENDERFYNU GAN BWERAU DIRPRWYEDIG – EBRILL 2021

Nodwyd

43 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Dim

44 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF – 16 MEHEFIN 2021